PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 8 MAI 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Boyle, Cunnah, Hudson, Lister a/ac Mackie |

80 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Cynghorydd Bowen-Thomson

81 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Mae gan Aelodau gyfrifoldeb o dan Ran 5 (III) o'r Cyfansoddiad, Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau a chwblhau ffurflenni buddiant personol.

82 : COFNODION

Cafodd cofnodion 10 Ebrill 2019 eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

83 : CAERDYDD DDWYIEITHOG – I DDILYN

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Chris Weaver (yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad).
- Ffion Gruffudd (Rheolwr Gweithredol Caerdydd Ddwyieithog)

Cafodd y Pwyllgor gyfle yn awr i ystyried cynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a oedd yn rhan o Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018-19.

Eglurodd y Cynghorydd Weaver ei bod yn werthfawr i'r Pwyllgor edrych ar y cynllun gweithredu diwygiedig. Roedd hon yn ddogfen fyw ac yn gyfle i'r Aelodau roi eu barn.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi’r prif bwyntiau canlynol:

- Gweledigaeth Caerdydd Ddwyieithog
  - Ein gweledigaeth i ddatblygu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn gydradd.
  - Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae’r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a’i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio.
- Safon 145
- Strategaeth ar gyfer y Ddinas Gyfan gan gynnwys partneriaid
- Adolygiad NICO 2018 – mae'r Strategaeth wedi adeiladu ar sylfeini cadarn ar gyfer ymgynghori a chyfathrebu.

- Argymhellion NICO – A7 ystyried adolygu'r cynllun gweithredu mewn ymgynghoriad â phartneriaid allweddol (erbyn diwedd blwyddyn 2 Mawrth 2019) gyda'r nod o ddiweddaru neu addasu'r targedau.
- Y Camau Nesaf – yr Uwch Dîm Rheoli 21 Mai, y Cabinet 13 Mehefin, y Cyngor Llawn 20 Mehefin.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Hysbyswyd y Pwyllgor am yr adnoddau sydd ar gael i reoli'r Cynllun Gweithredu. Roedd partneriaethau cryf yn eu lle i gefnogi cynnydd yn y dyfodol er mwyn cael Caerdydd cwbl ddwyieithog. Cydnabuwyd bod yr holl bartneriaid yn wynebu heriau ariannol ond yn sicrhau bod cynnydd a datblygiad yr iaith ar frig yr agenda.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y 35 partner yn gallu cyflawni a chefnogi'r cynllun gweithredu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cynllun gweithredu wedi'i gytuno a bod y partneriaid yn ymrwymedig i wireddu'r amcanion. Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi'r safon er mwyn hyrwyddo ei rwymedigaethau statudol ac roedd er budd gorau'r Cyngor i'w gyflawni.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at Addysg Cyfrwng Cymraeg a datblygiad Plasdŵr fel ysgol ddwyieithog. Mynegodd y Pwyllgor ei bryderon ynghylch y goblygiadau o ran cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg mewn ysgolion dwyieithog yn hytrach nag ysgolion Cymraeg penodedig.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan Addysg Cyfrwng Cymraeg dargedau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'w cyflawni, gyda'r bwriad o sefydlu ysgol fynediad ar gyfer 7 dosbarth erbyn 2031.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gefnogaeth i'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd yn dda. Un o'r heriau a brofwyd oedd sut y gellid defnyddio'r sgiliau dwyieithog y tu allan i'r amgylchedd addysgol. Roedd y Cyngor hefyd wedi creu swydd Tiwtor Cymraeg yn yr Academi er mwyn cynnal y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr awdurdod a darparu cynllun "gair y dydd" i annog ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod pecynnau meddalwedd ar gael i gefnogi'r iaith Gymraeg. Roedd datblygiadau parhaus mewn gwasanaethau a chyfleusterau yn cael eu gwireddu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill. Roedd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Microsoft i ddatblygu Chatbot dwyieithog.

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r wybodaeth ddiweddaraf gael ei rhoi i'r Pwyllgor ymhen 12 mis.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelodau Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

84 : CYFLAWNI UCHELGAIS PRIFDDINAS

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Chris Weaver (yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad).
- Chris Lee (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau)
- Dean Thomas (Rheolwr Rhaglen, RhCUP)
- Ian Phillips a Samantha Clements o Swyddfa Archwilio Cymru.

Byddai'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch ei adolygiad o'r trefniadau i gefnogi'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Tynnodd y Cynghorydd Weaver sylw at y ddau Bwyllgor Craffu a oedd wedi'u cynnal gan yr Adolygiad Polisi a Pherfformiad yn ymdrin â'r rhaglenni Uchelgais Prifddinas, sef Moderneiddio a Gwasanaethau Cydnerth. Diolchwyd i Swyddfa Archwilio Cymru am eu rôl yn y broses a chroesawyd gwaith craffu pellach ar y rhaglen.

Gwahoddodd y Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i roi sylwadau.

Tynnodd Swyddfa Archwilio Cymru sylw at adroddiad yr Adolygiad o'r trefniadau i gefnogi'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas - Cyngor Caerdydd, gan esbonio bod gwaith yn mynd rhagddo a bod swyddogion yn gwneud cynnydd.

Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- Roedd y Cyngor yn gweithio'n adeiladol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i helpu i weithredu'r rhaglen.
- Roedd y Cyngor yn canolbwyntio ar sut y gallai ymdrin â'i alw sylweddol am wasanaethau, gwella gwasanaethau a mynd i'r afael â heriau ariannol yn y tymor canolig drwy'r Rhaglen, ond gellid cryfhau'r cynllun ariannol tymor canolig.

Cynigion ar gyfer Gwella

C1 Mae angen i'r Cyngor gryfhau'r rôl craffu drwy ymgysylltu â, ac yn herio'r ffordd y caiff y rhaglen ei chyflawni, a'i heffaith, er mwyn cynyddu atebolrwydd a helpu i ddarparu momentwm.

C2 Byddai'r Cyngor yn cael budd o adolygiad o drefniant rheoli'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas ynghyd ag eraill sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol megis Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaethau

C3 Gallai'r Cyngor wneud mwy i asesu i ba raddau yr oedd y Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas yn cyfrannu at gyflawni targed arbedion £91 miliwn y Cyngor a gwneud cysylltiadau â'r cynllun ariannol tymor canolig.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y wybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn ar Uchelgais Prifddinas, Moderneiddio a Gwasanaethau Cydnerth ac roeddent o'r farn nad oedd llawer i graffu arno a'i fod yn fwy o wybodaeth briffio.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod Caerdydd wedi cryfhau ei harferion gwaith ynghyd â rhaglen i feithrin cysylltiadau â'r broses graffu gyda'r cyfle i graffu ar y gwaith hwnnw. Roedd cyfleoedd hefyd i nodi gwaith craffu ar bynciau penodol a oedd yn ymwneud â threfniadau llywodraethu.

Trafododd y Pwyllgor y cynnydd a sut y gellid datblygu hyn.

Hysbyswyd yr Aelodau bod yr Uchelgais Prifddinas yn cyflawni gwerth ychwanegol, a oedd yn ychwanegu elfennau cadarnhaol a oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.  Adolygiadau Gwasanaeth a sut y cawsant eu dewis, gan gyfrannu tuag at fodelau darparu gwell, wedi'u harwain gan fewnbwn gan y pwyllgor craffu.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r costau a'r manteision.  Cafodd rhai costau penodol eu monitro gan y Bwrdd Adolygu Buddsoddiadau, a oedd yn dadansoddi projectau drwy'r rhaglen newid.  Roedd meysydd y gellid eu hatgyfnerthu drwy wneud projectau'n fwy trawsnewidiol.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael rhagor o wybodaeth fanwl cyn craffu ar eitemau a beth yn benodol y dylai'r Pwyllgor ei ystyried.

Trafododd y Pwyllgor y fethodoleg sy'n sail i'r broses graffu er mwyn cefnogi gwaith craffu cynhyrchiol wrth symud ymlaen a chyfrannu at yr hyn a oedd yn ofynnol wrth graffu ar yr Uchelgais Prifddinas.

Hysbyswyd yr Aelodau am y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y rhaglen a nodwyd nad oedd rhai projectau wedi mynd rhagddynt o'u cyfnod cychwynnol, fel Llofnodion Electronig er enghraifft.

Awgrymodd y Cadeirydd fod swyddogion yn cwrdd ag ef i ddadansoddi a thrafod projectau a gyflwynir.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

85 : DATBLYGU'R STRATEGAETH EIDDO – I DDILYN

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Y Cynghorydd Russell Goodway (Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu)
- Helen Thomas (Pennaeth Eiddo)
- Matthew Seymour (Prif Reolwr Asedau)

Eglurodd y Cynghorydd Goodway fod Ystadau yn gweithio ar Strategaeth Eiddo Corfforaethol a'i bod yn bwysig nodi llwyddiant a chyflawniadau'r strategaeth bresennol.  Gallai newidiadau posibl ddigwydd yn y dyfodol ac felly roedd yn hanfodol dechrau meddwl am ffordd ymlaen ar gyfer y rhaglen a fyddai'n bodloni gofynion y Rhaglen Prifddinas.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi’r prif bwyntiau canlynol:

- Themâu a Thargedau Allweddol
  - Llai o adeiladau ond rhai gwell

- Rhesymoli, cydweithredu, moderneiddio
- Eiddo i'w reoli'n Gorfforaethol (strategol)
- Llywodraethu newydd: Bwrdd Rheoli Asedau dan gadeiryddiaeth CEX
- Targedau 5 mlynedd

- Cyflawniadau
- Gwersi a ddysgwyd o Strategaeth 2015-2020
- Cynllun Lefel Uchel
- Pwyntiau Trafod

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol gydag Addysg a’r Landlord Corfforaethol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod cydnabod pwysigrwydd Addysg yn pennu manyleb eiddo, fodd bynnag, o ran nodi safleoedd i ysgolion byddai’r Landlord Corfforaethol yn arwain y rôl.

Holodd y Pwyllgor am y materion o ran meddylfryd ynysig, ynghyd â materion arweinyddiaeth a sut roedd hyn yn mynd yn ei flaen.

Hysbyswyd yr Aelodau fod cynnwys cydweithwyr allanol yn y sector cyhoeddus yn cefnogi hyn wrth symud ymlaen. Roedd yr Heddlu ar hyn o bryd yn rhesymoli eu hystâd ac yn nodi lleoliadau, a allai weithio'n well pe baent yn cyd-leoli gyda gwasanaethau eraill megis Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Roedd y Strategaeth yn cael ei datblygu i ddod â hyn at ei gilydd, a oedd hefyd yn effeithio ar adrannau'r cyngor a oedd yn cael eu herio gan sefydliadau allanol.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am y Bwrdd Rheoli Asedau a'r gwaith o fonitro eiddo sy'n berchen i'r Cyngor.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor wybod bod yr Ystâd Strategol yn cael ei mwyhau a sut y gellid herio hyn. Os na all sefydliadau dalu eu rhent masnachol, a ddylai'r Cyngor rhoi cymhorthdal i’r gwasanaeth a chodi rhent is er mwyn diogelu gweithgareddau. Pe bai'r Cyngor yn cydnabod nad oedd sefydliad mewn sefyllfa i redeg ac ariannu gweithgaredd a ddylai Trosglwyddiad Asedau Masnachol ddigwydd.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at brojectau llwyddiannus yn y ddinas a chyfraniad y model Cydweithredol a oedd yn cefnogi ac yn gweithredu fel hwylusydd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod prosesau ar waith i ddadansoddi cyd-leoliadau a'r defnydd o ofod. Byddai'r defnydd o Hybiau’r Cyngor a'r lleoliadau gweithio ar y cyd gyda'r Heddlu a Gwasanaethau'r GIG yn dod â gwasanaethau ynghyd ac yn cael mynediad pellach ar gyfer cymorth.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at ddatblygiadau adeiladu newydd a chost y sylfeini a atgyfnerthwyd pe bai'r ôl-troed yn newid yn y dyfodol.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod yr ystâd wedi cael ei dyfodol-ddiogelu am 20 mlynedd er mwyn bod yn fwy effeithlon wrth symud ymlaen a chefnogi datblygiadau yn y dyfodol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd adroddiad penodol ar y Storfeydd ar hyn o bryd. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ond nid oedd unrhyw beth pendant hyd yma.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

86 : BLAENRAGLEN WAITH

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a gyflwynir ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a gofynnwyd i Donna Jones, Iechyd a Diogelwch fod ar gael ar gyfer eitem absenoldeb salwch.

87 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

88 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 12 MEHEFIN 2019